

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	09/02/2026
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	11/02/2026
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	18/02/2026

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cyngorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

PWNC

Trosglwyddiad Rhandiroedd Cae Pawb

PENDERFYNIAD –

Trosglwyddo diddordeb rhydd-ddaliadol Rhandiroedd Cae Pawb yn uniongyrchol i Gyngor Tref Porthmadog ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelodau Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD –
ADRODDIAD SWYDDOG**

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Cynghorydd Paul Rowlinson
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Gethin Jones (Uwch Syrfêwr Stadau)
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	9 / 2 / 2026
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	P. J. Rowlinson

Pwnc :

Trosglwyddiad Rhandiroedd Cae Pawb.

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

Trosglwyddo diddordeb rhydd-ddaliadol Rhandiroedd Cae Pawb yn uniongyrchol i Gyngor Tref Porthmadog ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i'r Aelod Cabinet gymeradwyo unrhyw drosglwyddiad uniongyrchol o eiddo sydd ddim ar y farchnad agored.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Mae Cyngor Tref Porthmadog wedi bod yn rheoli Rhandiroedd Cae Pawb ers sawl blwyddyn er budd y gymuned leol. Mae'r Cyngor Tref yn awyddus i sicrhau trosglwyddiad o'r diddordeb rhydd-ddaliadol yn yr eiddo, gan barhau i gynnal y defnydd presennol fel rhandiroedd.

Mae swyddogion y Cyngor wedi cadarnhau nad oes angen gweithredol bellach ar yr eiddo. Yn unol ag Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd sicrhau'r pris gorau posibl wrth waredu eiddo sy'n weddill ei anghenion. Yn gyffredinol, mae polisi'r Cyngor yn ffafrio gwaredu ar y farchnad agored i sicrhau tryloywder a chystadleuaeth deg. Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn cydnabod bod rhai eiddo, oherwydd eu natur, maint neu leoliad, yn annhebygol

o fod o ddiddordeb i unrhyw un heblaw un darpar brynwr penodol. Yn yr achosion hyn, gellir ystyried gwerthiant uniongyrchol, yn amodol ar gymeradwyaeth benodol.

Yn achos Rhandiroedd Cae Pawb, mae nifer o ffactorau yn cyfiawnhau gwerthiant uniongyrchol am swm enwol:

1. Statws Cyfreithiol y Safle:

Mae'r safle wedi'i ddynodi'n Rhandiroedd Statudol, sy'n golygu nad oes modd newid y defnydd heb ganiatâd Gweinidogion Cymru, yn unol â Deddf Rhandiroedd 1925. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn mynnu bod gofod amgen digonol yn cael ei ddarparu i unrhyw ddeiliaid rhandiroedd a gaiff eu dadleoli.

2. Cyfyngiadau Cynllunio:

Mae'r safle wedi'i warchod yn y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n golygu y byddai unrhyw geisiadau i newid y defnydd yn debygol o wynebu cyfyngiadau cynllunio llym. Mae hyn yn cyfyngu ar botensial datblygu'r safle ac yn lleihau ei werth marchnadol.

3. Diffyg Apêl i Brynwyr Eraill:

Oherwydd y cyfyngiadau uchod, mae'n annhebygol y byddai'r safle yn denu unrhyw brynwr arall ar wahân i Gyngor Tref Porthmadog, sydd eisoes yn meddiannu'r safle ac yn ei ddefnyddio er budd y gymuned.

4. Materion Meddiant:

Nid oes cofnod o gytundeb ffurfiol rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Tref Porthmadog (nac unrhyw ragflaenwyr), sy'n golygu bod sail gyfreithiol i'r darpar brynwr wneud cais meddiant gwrthgefn. Mae trosglwyddo'r eiddo yn osgoi'r risg o anghydfod cyfreithiol, yn lleihau'r angen am adnoddau cyfreithiol, ac yn sicrhau parhad defnydd cymunedol gan fydd cymal penodol yn cael ei gynnwys yn y trosglwyddiad yn cyfyngu'r defnydd i rhandiroedd er gwaethaf statws cyfreithiol y safle i sicrhau na fydd newid yn y defnydd yn y dyfodol.

Yn y cyd-destun hwn, mae gwerthiant uniongyrchol am swm enwol o £1 yn cael ei ystyried yn gyfiawn ac yn gymesur, gan adlewyrchu gwerth marchnadol cyfyngedig yr eiddo, oherwydd y pwyntiau uchod, ac yn bodloni gofynion Adran 123 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. O ganlyniad, nid oes bwriad derbyn llai na gwerth y farchnad am yr eiddo.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :
Dim.


Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Prif Swyddog Cyllid – “Nid yw'n arferol i'r Cyngor waredu eiddo am swm enwol ond credaf fod yr amgylchiadau yn yr achos yma yn eithriadol a felly mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yn rhesymol ac yn gyson â dyletswyddau ariannol yr Awdurdod. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.”

Swyddog Monitro – “Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

Aelod Lleol (Cyngorydd Nia Jeffreys) – “Croesawu y trosgwyddiad yn fawr iawn – Rhandiroedd Cae Pawb yn cyfoethogi Porthmadog gymaint ac yn dod a pleser mawr i fowyd trigolion, y Cyngor Tref yn neud gwaith da ers nifer o flynyddoedd - diolch iddynt.”

Aelod Lleol (Cyngorydd Gwilym Jones) – Wedi datgan buddiant personol.



Teitl / Title:

Cae Pawb, Porthmadog

Allwedd / Key:



Eiddo / Property

Dyddiad / Date:

30/04/2025

Graddfa / Scale @ A4:

1:1,250